Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llanbedrog

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae bron bob disgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol sy'n gyfeillgar, gofalgar a chefnogol. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr ethos hyfryd sy'n bodoli ynddi. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn ymdrin ag eraill gyda pharch a chwrteisi cyson. Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw'r modd mae staff yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn siarad a chyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg mewn ystod o gyd-destunau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd yn y ddwy iaith, a'u medrau rhifedd a digidol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae barn y disgybl yn rhan bwysig o'r broses o gynllunio gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymroi'n frwdfrydig i'w profiadau. Mae staff yn meithrin awyrgylch bositif yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu gweithgar a phwrpasol. Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu effeithiol. Er hyn, trwy or-gyfarwyddo'r dysgu, maent yn dueddol o gyfyngu ar allu'r disgyblion hynaf i wneud penderfyniadau am y modd maent yn cofnodi a chyflwyno eu gwaith.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Caiff ei chefnogi'n frwd gan y staff a llywodraethwyr, sy'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda phawb yng nghymuned yr ysgol. Mae ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm yn sicrhau bod pob aelod o staff yn teimlo bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi gan arweinwyr. Maent yn rhannu arferion effeithiol yn fwriadus ymysg ei gilydd a gyda chydweithwyr mewn ysgolion cyfagos. Mae staff yn cymryd rhan lawn yn mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliant parhaus yr ysgol dros amser.

# Argymhellion

A1 Lleihau’r defnydd o daflenni parod er mwyn galluogi’r disgyblion hynaf i wneud dewisiadau am y modd maent yn cofnodi a chyflwyno eu gwaith

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanbedrog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 94 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 65 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 4.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 14% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 38.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/09/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/05/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/03/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.